Eira

Parchu Syniadau Eraill / Goddefgarwch

Pan ddeffrôdd Catrin ac Elin un bore Sadwrn roedd pobman yn ddistaw fel y bedd. Cododd Catrin ac edrych drwy'r llenni. Er mawr syndod iddi roedd y byd i gyd yn wyn.

"Elin, côd y munud yma. Edrych mae hi wedi bod yn bwrw eira drwy'r nos, ac mae hi'n dal i fwrw eira ac mae pob man yn glaerwyn."

Cyn pen dim roedd y ddwy yn llygadrythu ar yr eira gwyn. Doedd dim amdani ond bwyta brecwast sydyn er mwyn cael mynd i chwarae yn yr eira. Dydi eira ddim yn beth mor gyffredin â hynny y dyddiau yma. Byddai taid y ddwy chwaer wrth ei fodd yn dweud hanesion amdano'n fachgen bach yn chwarae yn yr eira a hwnnw medda fo "at dop y cloddiau."

Diolch ei bod hi'n ddydd Sadwrn. Dim ysgol, felly cyfle i chwarae yn yr eira drwy'r dydd. Cyn iddyn nhw orffen eu brecwast roedd eu ffrindiau yno'n chwilio am danyn nhw. I ffwrdd â nhw i fwynhau eu hunain. Cyn amser cinio roedd dyn eira mawr yn sefyll yng nghanol yr ardd a moron oren yn drwyn iddo. Wedyn, cyfle i daflu peli eira ato. Y gamp oedd ceisio taro'r foronen. Tipyn o gamp! Wnaeth neb lwyddo. Erbyn ganol pnawn roedd hi'n dechrau oeri a phawb wedi blino. Ac i ffwrdd â nhw adref i gynhesu a sychu.

"Ydach chi'n hoffi'r eira?" gofynnodd Elin i'w mam.

"Mi oeddwn i'n ei hoffi pan oeddwn i yn ferch fach ond dydw i ddim mor hoff ohono erbyn hyn. Mae o'n dipyn o garchar."

"Carchar?" meddai Catrin wedi synnu. "Be ydach chi'n feddwl 'carchar'.

"Wel, mae'r eira'n rhwystro pobl rhag mynd o le i le. Dydi'r ceir a'r bysiau ddim yn rhedeg pan mae'r eira ar y ffyrdd. Ac mae o'n beryglus iawn. Dyna pam ydw i yn defnyddio'r gair 'carchar'.

Aeth eu mam yn ei blaen. "Ond cofiwch mae o'n brydferth yn enwedig ar y coed, a'r cloddiau. A phetai chi'n edrych ar bob

pluen eira o dan feicrosgob fe welech fod pob un yn berffaith a phob un efo patrwm arbennig."
"Erbyn yfory mae'n bur debyg na fydd yr eira'n brydferth ac yn wyn bydd ceir wedi bod drwyddo ac wedi ei wneud yn fudr," meddai Catrin.
"A beth am hen bobl?" gofynnodd Elin. "Mae'n siŵr bod yr eira'n gallu bod yn garchar iddyn nhw."
"Ydi'n siŵr," meddai'i mam. "I rai mae'r eira yn bleserus a phrydferth ond i eraill mae'n garchar ac yn gaethiwed."

O Dduw, pan fydda i yn mwynhau fy hun helpa fi i feddwl am bobl eraill hefyd. Amen.

✦ Pa bethau fyddwch chi'n hoffi eu gwneud yn yr eira?
✦ Pam oedd mam y genethod yn defnyddio'r gair 'carchar' tybed?